

**AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU  
CENEDLAETHOL CYMRU  
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF  
WALES**

**Cynllun Cymraeg wedi  
ei baratoi o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993**

Mae'r Cynllun hwn wedi ei baratoi yn unol ag Adran 14 (1) o'r Ddeddf, a chafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar y 10fed ddydd o fis Medi 1997

---

Mae Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddant yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus. Mae'r Cynllun hwn yn gosod allan sut y bydd Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

---

**AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU**

*Mae Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru yn bodoli i hybu ymwybyddiaeth ehangach a gwell dealltwriaeth o Gymru, ei hanes, ei diwylliant a'I lle yn y byd, drwy eu gwybodaeth a'u casgliadau aml-ddisgyblaeth sydd â chwmpas a phwysigrwydd rhyngwladol.*

Sefydliad annibynnol yw Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru (AOCC) a sefydlwyd gan Siarter Brenhinol ac sy'n cael ei ariannu'n bennaf gan y Swyddfa Gymreig. Mae ein Datganiad Cenhadaeth uchod yn diffinio'n hamcanion a'n dibenion.

Ar hyn o bryd mae gan AOCC wyth safle sy'n agored i'r cyhoedd ac sy'n cynnwys casgliadau:

Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol Caerdydd  
Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan  
Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru Caerdydd  
Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis  
Amgueddfa'r Lleng Rufeinig Caerllion  
Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru Dre-Fach Felindre  
Tŷ Turner Penarth  
Amgueddfa Rufeinig Segontium Caernarfon

Bydd AOCC yn croesawu tuag 800,000 o ymwelwyr bob blwyddyn i'w Hamgueddfeydd ac i'w Horiolau o Gymru, gweddill Prydain ac o bob cwr o'r byd, a

thrwy ein casgliadau a'n dehongliadau ceisiwn ddyfnhau ac ehangu ymwybyddiaeth y bobl hynny o Gymru a'i diwylliant cyfoethog.

Fel canolfan ragoriaeth academiaidd yn ein hamrywiol ddisgyblaethau, bydd AOCC yn derbyn ymholiadau gan y cyhoedd a sefydliadau eraill fel ei gilydd, a thrwy ei gwasanaeth addysg ceisia ddarparu'r wybodaeth honno I fyfyrwyr o bob oed.

Mae AOCC yn cyflogi tua 500 o staff ar hyd a lled Cymru o dan ei Chyfarwyddwr ac mae'n atebol i Lys y Llywodraethwyr a'r Cyngor a sefydlwyd o dan ei Siarter Brenhinol.

## **CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETH**

### *Polisiâu a Mentrau Newydd*

Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Gyngor yr Amgueddfa, y Cyfarwyddwr a'r staff hŵn sy'n ymwneud â llunio polisiâu ac sy'n ymwybodol o gyfrifoldeb AOCC o dan y Ddeddf.

Mae AOCC yn ymrwmo i:

- asesu canlyniadau ieithyddol unrhyw bolisiâu neu fentrau newydd wrth eu llunio
- sicrhau bod polisiâu a mentrau newydd yn cyd-fynd â'r Cynllun; na fyddent yn ei danseilio; nad ydynt yn newid y Cynllun heb ganiatâd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw
- sicrhau y bydd polisiâu a mentrau newydd yn hybu ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag y bydd yn bosibl ac yn symud AOCC yn nes at weithredu'r egwyddor o gyfartalwch rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar bob cyfle
- sicrhau bod y camau a gynhwysir yn y Cynllun hwn yn gymwys i bob polisi a menter newydd pan gânt eu gweithredu, ac yn cynnwys unrhyw safleoedd neu leoliadau newydd a agorir i'r cyhoedd gan AOCC.

### *Darparu Gwasanaethau*

Mae Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru wedi ymrwmo i sicrhau y gall ymwelwyr ag unrhyw un o'i safleoedd fwynhau'r casgliadau sydd yn ei gofal i'r un graddau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg trwy ddarparu, er enghraifft, destunau a dehongliadau dwyieithog, ac y gall y sawl sy'n dod ag ymholiadau i AOCC, boed yn bersonol neu fel arall, wneud hynny, cyn belled ag sy'n bosibl, yn y naill iaith neu'r llall. Fodd bynnag, oherwydd natur wasgaredig ddaearyddol y safleoedd, ceir cryn amrywiaeth yn eu cyd-destun ieithyddol – o Gaerllion, ardal ddi-Gymraeg ei hiaith yn bennaf yn ne-ddwyrain Cymru i Lanberis lle mae canran uchel o'r gymuned leol yn siarad Gymraeg. I ryw raddau bydd y gwasanaethau a ddarperir gan AOCC ar gyfer y cyhoedd yn yr amryfal safleoedd yn adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn. Mae siaradwyr Gymraeg lleol ar staff Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru Dre-fach Felindre a hefyd yn Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis, ond mae'r sefyllfa yn anoddach yn Amgueddfa'r Lleng Rufeinig Caerllion lle mae llai o siaradwyr Gymraeg.

Gweler isod sut mae AOCC yn bwriadu mynd ati i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

### *Safon y Gwasanaeth yn y Gymraeg*

Mae AOCC wedi ymrwymo i:

- sicrhau, o gofio egwyddorion Siarter y Dinesydd a'i Datganiad Siarter Safonau ei hun, a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ei bod yn darparu gwasanaeth o safon lawn mor uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg
- gosod safonau'n ymwneud â darparu gwasanaethau gan AOCC a delio â'r cyhoedd yn y Gymraeg, gan eu hadolygu a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt yn rheolaidd. Cedwir golwg ar y safonau eu hunain yn ogystal ag ar y ffordd y'u gweithreidir.

Cyfeirir at yr ymrwymiad i ddarparu safon gwasanaeth o'r un lefel yn y Gymraeg a'r Saesneg – ym mhob un o'i safleoedd – ac fe'i cadarnheir yn nogfennau polisi allweddol AOCC, megis yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Corfforaethol, er y gall hyn fod yn anodd ar y cychwyn yn yr ardaloedd di-Gymraeg.

---

## **DELIO A'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG**

### *Cyfathrebu Ysgrifenedig*

Bydd AOCC yn cymryd camau penodol i weithredu egwyddor o gyfartalwch sydd wedi ei gosod allan yn y Ddeddf mewn cysylltiad a gohebu â'r cyhoedd. Mae AOCC yn croesawu gohebiaeth gan y cyhoedd yn yr iaith o'u dewis, boed yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Yn arbennig mae AOCC yn ceisio sicrhau:

- y bydd pob llythyr Cymraeg yn cael ateb Cymraeg wedi ei lofnodi pryd bynnag y bydd angen ateb. Pan na fydd y sawl sy'n ateb yn gallu siarad Cymraeg, gellir cadw fersiwn Saesneg ar y ffeil i osgoi unrhyw amheuaeth
- ar ôl i ddewis penodol neu gychwynol gael ei fynegi am ohebu yn y Gymraeg – ar lafar neu'n ysgrifenedig – neu pan fydd hynny eisoes yn hysbys, y dylai pob gohebiaeth yn y dyfodol fod yn y Gymraeg oni bai bod y person hwnnw yn nodi fel arall
- y bydd pob cylchlythyr neu lythyr safonol i'r cyhoedd yng Nghymru yn cael ei anfon yn ddwyieithog.

Er mwyn sicrhau na ddylai gohebu yn y Gymraeg ynddo'i hyn olygu oedi, caiff cyfarwyddiadau sefydlog eu llunio fel canllaw i'r staff am y drefn briodol i'w dilyn, gan gynnwys pryd a sut i gael cyfieithiadau er mwyn sicrhau atebion prydlon a chywir i ohebiaeth, boed yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

### *Cyfathrebu ar y Ffôn*

Caiff pobl sy'n galw AOCC ar y ffôn eu cyfarch yn ddwyieithog, ac mae croeso i'r cyhoedd ddeilio ag AOCC yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dymuniad.

Bydd AOCC yn gweithredu'r drefn ganlynol wrth ddeilio â galwadau ffôn yn y Gymraeg:

- sicrhau y bydd cysylltwyr ffôn yn cyfarch galwyr yn ddwyieithog ac yn gallu delio ag ymholiadau sylfaenol yn y Gymraeg, gan ddarparu hyfforddiant addas lle bydd angen
- rhoi canllawiau i'r holl staff ar ddelio â galwadau ffôn yn y Gymraeg - sef trosglwyddo galwadau i siaradwr Cymraeg addas, neu os na fydd hynny'n bosibl ar unwaith, trefnu i siaradwr Cymraeg ffonio'n ôl yn brydlon
- llunio rhestr o siaradwyr Cymraeg a ddiweddarir yn rheolaidd, y gellir trosglwyddo galwadau iddynt neu nodi'r aelodau hynny o'r staff yn y rhestr bresennol
- sicrhau bod pob neges ar y ffôn ateb cyhoeddus a negeseuon wedi eu recordio, gan gynnwys peiriannau ateb, yn ddwyieithog.

### *Cyfarfodydd Cyhoeddus*

Cyhoeddir unrhyw hysbysiad am gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd ac sy'n cael eu trefnu gan AOCC yn ddwyieithog - boed drwy gyfrwng hysbysiadau yn y wasg, hysbysebion, gwahoddiadau, posteri a dulliau cyhoeddusrwydd tebyg eraill. Darperir gwasanaethau cyfieithu addas i sicrhau bod y rheiny sy'n mynychu'r cyfarfod yn gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a bod croeso iddynt wneud hynny.

Caiff darlithiau cyhoeddus, cyrsiau, seminarau a gweithdai er enghraifft, eu trefnu yn y naill iaith neu'r llall, yn ôl yr hyn sy'n briodol.

*Cyfarfodydd nad ydynt yn Agored i'r Cyhoedd (Cyfarfodydd Safle, Cyfweliadau, ac yn y blaen).*

Mewn ymweliadau achlysurol neu gyfarfodydd annisgwyl, mae croeso i'r rheiny sydd am ddelio ag AOCC yn uniongyrchol yn Gymraeg wneud hynny, a phryd bynnag y bydd modd, bydd staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ymateb i ymholiadau personol. Pan na fydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, trefnir i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg gysylltu â'r holwr, er y bydd enghreifftiau, efallai, oherwydd natur ymholiadau sy'n ymwneud yn benodol â rhannau o'r casgliadau, lle nad fydd hyn yn bosibl. Er enghraifft, ymholiadau yn gofyn am ymateb academaidd manwl i agweddau arbennig ar y casgliadau neu gyngor ar faterion technegol a seilir ar arbenigrwydd neu brofiad unigolion ar ran y staff.

Caiff ymweliadau a chyfarfodydd a drefnir o flaen llaw – er enghraifft gan ysgolion neu grwpiau eraill yn y safleoedd – eu cynllunio mewn ffordd sy'n cynnig y gwasanaeth yn gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar wahân i'r adegau pan fo'r ymholiad yn benodol iawn ac mae'r ymateb yn dibynnu ar allu unigol aelodau o'r staff.

Caiff canllawiau ar sut i ddelio ag ymholiadau yn y Gymraeg eu rhoi i'r holl staff, yn ogytal â phob achos arall o ddelio a'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg. Cynhwysir y

rheiny yn y Llawlyfr Gweinyddu a roddir i'r staff fel rhan o'u hyfforddiant rhagarweiniol.

---

## **GWEDD GYHOEDDUS AOCC**

### *Delwedd Gorfforaethol*

Mae AOCC wedi ymrwymo i ddelwedd hollol ddwyieithog ac i roi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg. Pan ddefnyddir ddwy iaith gyda'i gilydd, bydd y testun Cymraeg i'w weld uwchben y Saesneg, neu os byddant ochr yn ochr, bydd y Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde.

Caiff AOCC a phob un o'i safleoedd eu galw wrth eu henwau Cymraeg a'u henwau Saesneg, a bydd yr holl ddeunydd ysgrifennu a ddarperir i'r cyhoedd yn ddwyieithog. Mae hynny'n cynnwys:

enw, cyfeiriad, delwedd weledol  
arwyddair corfforaethol (os oes un ar gael neu os mabwysiedir un)  
penawdau llythyron, dalenni ffacs, cardiau busnes, slipiau cyfarch  
bathodynau adnabod  
biliau, derbynebion, slipiau talu a sieciau  
bwydlenni, oriau agor, rhestrau digwyddiadau  
posteri, mapiau a thalebau

Mae AOCC wedi ymrwymo i sicrhau bod y ddelwedd gorfforaethol, ym mhob amgylchiad pan gaiff ei phortreadu, boed ar gerbydau, adeiladau, arwyddion, nwyddau ar werth fel crysau T, ac yn y blaen, ar ffurf ddwyieithog.

### *Arwyddion*

Mae AOCC wedi ymrwymo i:

- ddarparu, pan na ellir defnyddio symbol rhyngwladol, arwyddion gwybodaeth hollol ddwyieithog o fewn cwrtel ei heiddo, gan gynnwys manau tu mewn sy'n agored i'r cyhoedd
- sicrhau y bydd pob arwydd arall y mae'n gyfrifol amdanynt, arwyddion gwybodaeth gyhoeddus, arwyddion priffyrdd ac yn y blaen, yn hollol ddwyieithog
- cadarnhau y bydd pob arwydd sy'n newydd neu'n cael ei adnewyddu yn hollol ddwyieithog
- sicrhau, pan ddarperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, eu bod yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

### *Arddangosfeydd*

Mae AOCC wedi ymrwymo i sicrhau:

- bod pob testun ar gyfer arddangosfeydd parhaol yn ddwyieithog. Ar gyfer arddangosfeydd sy'n tarddu o'r tu allan i Gymru, darperir eglurhad dwyieithog. Un o amodau arddangosfeydd AOCC sydd ar daith yng Nghymru yw fod yr holl destun a'r arwyddion yn ddwyieithog
- y bydd pob datblygiad yn y dyfodol i ddehongli'r arddangosfeydd parhaol a dros dro, fel tywysyddion sain, ffilmiau dehongli, ail-greu dramatig gan actorion, a'r holl nwyddau a gynhrychir gan AOCC mewn cysylltiad ag arddangosfeydd yn ddwyieithog. Yn ogystal ag unrhyw ddefnyddiau sy'n perthyn i fenthyciadau o eitemau neu rannau o'r casgliadau i lefydd eraill
- y bydd y rhaglen Arddangosfeydd yn adlewyrchu'r agwedd Gymraeg ar genhadaeth AOCC ac yn tynnu sylw at yr agwedd Gymraeg mewn arddangosfeydd eraill. Er enghraifft, mae arddangosfeydd yn ALC Llanberis yn cyfeirio at y ffaith mai'r Gymraeg oedd iaith y chwarel ac y deil felly hyd heddiw. Gall arddangosfeydd yn AWC Sain Ffagan ddisgrifio datblygiad yr iaith ac elfennau eraill o'r diwylliant Cymreig megis dawnsio gwerin a digwyddiadau calendr megis y Fari Lwyd.

#### *Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd a Gyfeirir at y Cyhoedd yng Nghymru*

Bydd pob dogfen a gynhrychir gan AOCC ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ymddangos yn ddwyieithog. Caiff cyfarwyddiadau ysgrifenedig, fel Canllawiau Arddull Gorfforaethol AOCC, eu darparu i'r holl staff, yr ymgynghorwyr, y dylunwyr a'r cyhoeddwyr a gyflogir i gynhyrchu dogfennau cyhoeddus o'r fath ar ran AOCC, a bydd gofyn iddynt gadw at y Canllawiau hynny a pholisi Cymraeg AOCC wrth gynhyrchu dogfennau o'r fath.

Pryd bynnag y bydd yn bosibl, bydd y fersiwn Cymraeg a'r fersiwn Saesneg yn ymddangos fel un ddogfen, ond os byddant i'w cynhyrchu ar wahân, cânt eu cyhoeddi yr un pryd a bod llawn mor hygyrch ym mhob achos lle mae gan AOCC y gallu i reoli hyn. Os bydd AOCC yn cydlynu cyhoeddi unrhyw ddeunydd gyda chyrrff eraill yn Lloegr (neu rywle arall), gwneir trefniadau i sicrhau bod y fersiwn Gymraeg neu ddwyieithog i'w defnyddio yng Nghymru yn cael ei chyhoeddi yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.

Caiff Adroddiad Blynyddol AOCC a phob gwaith poblogaidd a dehongliadol megis tywyslyfrau i safleoedd AOCC eu cynhyrchu'n ddwyieithog mewn un fersiwn neu ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd cyhoeddiadau sy'n cynnwys erthyglau gwahanol yn y ddwy iaith yn darparu crynodeb yn yr iaith arall.

Rhoddir ystyriaeth i gynhyrchu eitemau o ddiddordeb arbenigol ac eitemau ysgolheigaidd a byrhoedlog yn ddwyieithog, yn ôl y galw amdanynt a'u perthnasedd, neu argraffir fersiynau uniaith yn dibynnu ar y farchnad a dargedir.

Pan gaiff cyhoeddiadau eu cynhyrchu'n ddwyieithog mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, a bydd y ddau fersiwn ar werth am yr un pris.

Caiff deunyddiadau printiedig eraill eu cynhyrchu'n unol ag egwyddorion y Cynllun hwn.

Mae'r uchod yn gymwys i'r holl ddefnydd a gynhrychir gan AOCC ond nid yw'n cynnwys defnydd cyhoeddedig o ffynonellau eraill a werthir drwy ei manau gwerthu.

### *Technoleg Newydd*

Bydd AOCC yn cadw golwg yn gyson ar y ffordd orau i alluogi'r cyhoedd i ddelio a'r sefydliad drwy dechnoleg newydd a'r dechnoleg sy'n datblygu, yn unol ag egwyddorion y Cynllun hwn. Wrth i e-bost a thechnoleg y Rhynggrwyd ddatblygu, bydd AOCC yn sicrhau bod ei defnydd yn dilyn yr egwyddorion hyn mor bell ag sy'n bosibl yn dechnegol.

### *Ffurflenni a Deunydd Egluro Cysylltiedig*

Mae AOCC wedi ymrwymo i ddarparu ffurflenni a deunydd egluro hollol ddwyieithog ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Os cânt eu cyhoeddi ar wahân, byddant ar gael yn yr un ffordd, i'w gweld gyda'i gilydd a'u dosbarthu gyda'i gilydd boed drwy'r post dros y cownter. Pan cyhoeddir fersiynau yn y ddwy iaith ar wahân, byddant yn cynnwys neges fod fersiwn ar gael yn yr iaith arall.

### *Datganiadau i'r Wasg*

Caiff pob hysbysiad a datganiad i'r cyfryngau yng Nghymru ei gyhoeddi yn yr iaith briodol i'r cyfrwng.

### *Gweithgareddau Hysbysebu a Chyhoedduswydd*

Bydd AOCC yn gweithredu'r amcanion canlynol:

- caiff yr holl ddeunyddiau cyhoedduswydd a ddefnyddir yng Nghymru eu cynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg, a hynny mewn un ddogfen pan fydd yn bosibl
- bydd ymgyrchoedd hysbysebu i'r wasg yng Nghymru yn digwydd yn y Gymraeg a'r Saesneg
- caiff ymgyrchoedd teledu a radio a bwletinâu sydd i'w darlledu i'r cyhoedd yng Nghymru eu cynhyrchu yn yr iaith berthnasol i'r cyfrwng - er enghraifft Saesneg i Radio Wales, Cymraeg i Radio Cymru
- bydd hysbysebion ar bosteri a hysbysfyrddau a chan ddefnyddio negeseuon electronig, sinema neu ddulliau eraill yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg
- caiff arolygon cyhoeddus yng Nghymru eu cynnal yn ddwyieithog
- caiff ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol yng Nghymru eu cynnal yn y Gymraeg a'r Saesneg
- bydd mecanweithiau i ymateb i ymgyrchoedd hybu gwybodaeth, e.e. llinellau gwybodaeth/cymorth yn y Gymraeg a'r Saesneg
- bydd AOCC yn cael ei chynrychioli mewn ffeiriau/arddangosfeydd yng Nghymru ar ffurf ddwyieithog gyda'r staff priodol.

*Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus, Hysbysebu am Staff*

Bydd hysbysiadau swyddogol a hysbysiadau cyhoeddus sy'n ymddangos yng Nghymru fel rheol yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y ddwy iaith.

Caiff swyddi staff eu hysbysebu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyhoeddiadau Cymraeg ac yn ddwyieithog mewn cylchgronau a phapurau newydd sy'n seiliedig yng Nghymru a'r rheiny sy'n darparu gwasanaeth tebyg. Pan ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, gall hysbyseb yn y Gymraeg yn unig gael ei defnyddio yn y wasg Saesneg gyda throednodyn priodol yn y Saesneg yn egluro hynny.

Pan nad yw'r gallu i siarad Cymraeg yn un o'r gofynion, gellir hysbysebu swyddi yn Saesneg yn unig mewn papurau newydd a chylchgronau arbenigol sy'n cylchredeg yn benodol y tu allan i Gymru.

---

## **GWEITHREDU'R CYNLLUN A'I AROLYGU**

### *Staffio*

Mae AOCC wedi ymrwymo i sicrhau, ym mhob un a'i safleoedd, y dylai'r cyhoedd allu cael gwasanaeth digon o siaradwyr sydd â'r gallu priodol yn y Gymraeg i ganiatáu rhoi gwasanaeth llawn yn y Gymraeg, er y gall y gwahaniaethau rhanbarthol y cyfeiriwyd atynt uchod, ddylanwadu ar hyn.

Mae AOCC wedi ymrwymo ymhellach i:

- nodi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ac i gynnwys hynny mewn disgrifiadau swydd perthnasol
- nodi swyddi a lanwyd eisoes gan siaradwyr Cymraeg a nodi'r manau lle na chynigir gwasanaeth dwyieithog, a chymryd camau priodol i gywiro diffygion felly drwy raglenni hyfforddiant wedi eu targedu, drwy flaenoriaethau penodi siaradwyr Cymraeg wrth i swyddi ddod yn wag, aildrefnu cyfrifoldebau ymhlith y staff presennol, a thrwy geisio cael cefnogaeth y staff presennol i ddarparu cymorth pan fo angen
- sicrhau bod rheolwyr priodol a sicrhau bod y sawl sy'n gyfrifol am benodi, hyfforddi ac arolygu staff yn ymwybodol o ymrwymiad AOCC a'r camau ar gyfer eu gweithredu.

Cynhelir arolygon rheolaidd i weld a yw'r amcanion yn cael eu cyflawni, a chymerir camau priodol i ddelio ag unrhyw ofynion sy'n newid.

### *Dysgu Cymraeg*

Anogir yr holl staff nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg i ddysgu Cymraeg, neu lle bo'n briodol, i wella'u gallu i siarad Cymraeg. Trefnir hyfforddiant ar gyfer staff hynny mewn swyddi lle nodir bod gwybodaeth o'r Gymraeg yn hanfodol, tynnir sylw at gyrsiau addas; a rhoddir amser rhydd ar gyfer hyfforddiant i'r staff hynny y nodir bod gwybodaeth o'r Gymraeg yn ddymunol iddynt. Caiff adnoddau ariannol eu clustnodi o fewn y gyllideb hyfforddiant.

### *Recriwtio*

Croeso i siaradwyr Cymraeg ymgeisio am bob swydd yn AOCC, a bydd gallu ieithyddol yn un o nifer o fedrau a gedwir mewn cof wrth recriwtio a phenodi staff.

Caiff staff dwyieithog eu penodi i'r adrannau a'r disgyblaethau hynny lle mae gwybodaeth o'r Gymraeg yn angenrheidiol.

Os bydd rhaid penodi person nad yw gallu siarad Cymraeg i swydd lle ystyrir bod y Gymraeg yn angenrheidiol, bydd ymrwymiad i ddysgu Cymraeg yn rhan o'r amodau cyflogi, a chedwir llygad drwy gydol y cyfnod prawf, ac fel rhan o'r rhaglen gwerthuso staff, ar ddarpariaeth hyfforddiant addas a chyrraedd lefel dderbyniol o allu yn y Gymraeg.

Lle bo angen, bydd hysbysebion am swyddi yn AOCC yn nodi'n glir a yw'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol ac yn nodi hefyd y gofynion ar gyfer cyrraedd y lefel angenrheidiol o ruglder.

### *Hyfforddiant Galwedigaethol*

Bydd AOCC yn cadw golwg cyson ar y galw am hyfforddiant penodol yn y Gymraeg er mwyn eu galluogi i weithredu canllawiau'r Cynllun, a lle bynnag y bo'n berthnasol bydd yn sicrhau bod hyfforddiant o'r fath yn rhan o hyfforddiant galwedigaethol staff yn yr Amgueddfa.

### *Trefniadau Gweinyddol*

Mae'r polisi a'r camau sy'n cael eu disgrifio yn y Cynllun hwn wedi eu cymeradwyo gan Gyngor yr Amgueddfa a'r Cyfarwyddwr ac mae iddynt awdurdod llawn AOCC yn eu gweithrediad.

I hwyluso integreiddio'r Cynllun ym mhrosesau gweinyddol cyffredinol AOCC, bydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Gwasanaethau Cyhoeddus) yn gyfrifol am y Cynllun yn gyffredinol ond bydd penaethiaid unedau ac adrannau'n gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w hunedau/adrannau.

Bydd Gweithgor Deddf yr Iaith Gymraeg â chynrychiolwyr o bob safle a disgyblaeth yn yr Amgueddfa yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu cymhwysiad a gweithrediad y Cynllun.

Caiff cyfarwyddiadau a chanllawiau ysgrifenedig eu cyhoeddi i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Cynllun a'r Deddf a sut y bydd hynny'n effeithio ar eu harferion gweithio, yn enwedig wrth ddelio â'r cyhoedd.

Bydd egwyddorion y Cynllun hwn yn ystyriaeth hanfodol wrth baratoi a phrynu rhaglenni cyfrifiadurol yn y dyfodol, o fewn terfynau materion ymarferol a thechnegol.

Bydd unrhyw wasanaethau cyfieithu a ddefnyddir yn cyd-fynd ag ymrwymiad AOCC i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'w holl gwsmeriaid.

## *Gwasanaethau a Ddarperir gan Eraill ar ran AOCC*

Bydd AOCC yn sicrhau bod unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir gyda phobl eraill ac sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau'r Cynllun. Bydd hynny'n cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan.

I wneud hynny, bydd AOCC:

- yn pennu unrhyw ofynion o ran defnyddio'r Gymraeg mewn dogfennau tendro, contractau ac amodau grantiau a benthyciadau
- yn arolygu cyflawni gofynion o'r fath gan y contractwr a gweithredu'n gyffredinol agweddau perthnasol ar y Cynllun hwn.

## *Arolygu*

Bydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Gwasanaethau Cyhoeddus) yn gyfrifol yn gyffredinol am arolygu ac adolygu'r Cynllun hwn, er y bydd Rheolwyr y Safleoedd a Phenaethiaid Adrannau yn uniongyrchol gyfrifol am agweddau sy'n berthnasol i safleoedd neu Adrannau.

Dylai'r broses o arolygu gwmpasu:

- cynllunio ymlaen, recriwtio a phrynu; sicrhau bod polisïau a threfniadau newydd yn gyson â darparu gwasanaethau dwyieithog ar sail gyfartal
- delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg: cadw golwg ar amserau ateb gohebiaeth Gymraeg, ansawdd gwasanaethau cyfieithu a threfniadau ar gyfer cyfarfodydd, seminarau, ymweliadau, cyrsiau a phrojectau yn Gymraeg
- wyneb cyhoeddus AOCC: cadw golwg ar ddelwedd gorfforaethol AOCC, ei chyhoeddiadau, ffurflenni, arwyddion a'i hysbysiadau dwyieithog a deunydd arall a gyhoeddir
- staffio: cadw golwg ar weithredu'r camau staffio a hyfforddi a ddisgrifir yn y Cynllun hwn
- asiantau a chontractwyr: cadw golwg ar ddarparu a gweinyddu gwasanaethau gan asiantau a chontractwyr AOCC er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r telerau Cymraeg yn eu cytundebau neu eu trefniadau
- amserlen; mesur llwyddiant wrth weithredu camau yn ôl yr amserlen a ddisgrifir yn y Cynllun
- cwynion; cofnodi achosion a natur cwynion yn ymwneud â gwasanaeth Cymraeg AOCC, er enghraifft, drwy'r ffurflenni ymwelwyr, gohebiaeth ysgrifenedig ac yn y blaen.

Bydd arolygu'r Cynllun yn parhau a bydd yn rhan o ofynion cynllunio pob uned/adran at y dyfodol. Anogir ymateb gan y cyhoedd, a chaiff manylion o ran sut y gall y cyhoedd fynegi barn yn benodol o ran y Cynllun Cymraeg eu cynnwys yn Natganiad Siarter Safonau AOCC.

Bydd AOCC yn atebol yn gyhoeddus am lwyddo i weithredu'r Cynllun hwn, ac fe'i hadolygir yn ôl yr angen.

## *Targedau*

Mae'r targedau a'r amserlen ar gyfer mesur gweithredu'r Cynllun i'w gweld yn Atodiadau A a B

Bydd unedau ac adrannau unigol yn llunio dogfennau drafft tebyg sy'n benodol i'w meysydd cyfrifoldeb hwy pan fo hynny'n berthnasol

Diben yr amserlen hon yw caniatáu gwireddu amcanion y Cynllun hwn.

## *Cyhoeddi Gwybodaeth*

Caiff cymariaethau rheolaidd rhwng y perfformiad a'r safonau sydd wedi eu gosod allan yn y Cynllun hwn eu cyhoeddi mewn Arolygon Perfformiad, a gwneir datganiad cyffredinol o'r cynnydd yn Adroddiad Blynyddol AOCC i'w archwilio gan y cyhoedd.

Lle bo'n berthnasol, bydd arolygon felly'n delio â meysydd megis canran yr ymatebion i ohebiaeth Gymraeg a anfonwyd o fewn yr amserau penodol.

Danfônir adroddiad bob blwyddyn at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

## *Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun*

Tynnir sylw at ymrwymiad AOCC i egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg ac egwyddorion y Cynllun hwn yn Natganiad Siarter Safonau AOCC a bydd cyhoeddusrwydd priodol i'w weld ym mhob man derbyn a thrwy ddulliau priodol eraill.

Darperir copïau o'r Cynllun hwn i'r holl staff presennol ac i staff newydd wrth iddynt ddechrau, a bydd cyflwyniad i ofynion y Cynllun a'r Ddeddf yn rhan o raglenni cyflwyno staff yn y dyfodol.

---

## **AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU**

Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF1 3NP

Amgueddfa Werin Cymru  
Sain Ffagan  
CAERDYDD  
CF5 6XB

Amgueddfa Diwydiant a Môr Gymru  
Stryd Bute  
Bae Caerdydd

CAERDYDD  
CF1 6AN

Amgueddfa Lechi Cymru  
LLANBERIS  
Gwynedd  
LL55 4TY

Amgueddfa'r Lleng Rufeinig  
Stryd Fawr  
CAERLLION  
NP6 1AE

Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru  
Dre-Fach Felindre  
LLANDYSUL  
SA44 5UP

Oriel Tŷ Turner  
Ffordd Plymouth  
PENARTH  
CF64 3DM

Amgueddfa Rufeinig Segontium  
Ffordd Beddgelert  
CAERNARFON  
LL55 2LN

---

## Atodiad A

### AMSERLEN AR GYFER GWEITHREDU

NOD	CYNNYDD
Atebion ysgrifenedig i ohebiaeth Gymraeg	Yn parhau
Cofnod o ohebwyrr sy'n dewis y Gymraeg	Yn parhau
Cylchlythyron/llythyron safonol dwyieithog	Yn parhau
Cyfarwyddiadau sefydlog ar gyfieithu, ayb	Yn parhau
Cyfarchiad dwyieithog ar y switsfwrdd	Wedi ei weithredu
Canllawiau ar drin galwadau ffôn ac ymholiadau yn y Gymraeg	Yn parhau
Rhestr o'r staff sy'n siarad Gymraeg	Yn parhau
Negeseuon ffôn ateb ac wedi eu recordio yn ddwyieithog	Yn parhau
Cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu trefnu'n ddwyieithog	Wedi ei weithredu

Mannau derbyn a gwasanaethau dwyieithog	Yn parhau
Delwedd gorfforaethol hollol ddwyieithog gan gynnwys penawdau llythyron ayb.	Wedi ei weithredu
Arwyddion allanol a mewnlol dwyieithog	Yn parhau
Cyhoeddiadau dwyieithog	Wedi ei weithredu
Hysbysiadau i'r Wasg yn ddwyieithog	Wedi ei weithredu
Hysbysebion a chyhoeddusrwydd dwyieithog	Wedi ei weithredu
Hysbysebu a recriwtio dwyieithog (lle bo'n berthnasol)	Wedi ei weithredu
Nodi gofynion Cymraeg pob swydd	Yn parhau
Cychwyn hyfforddiant priodol yn y Gymraeg	Yn parhau
Lefelau priodol o staff â'r Gymraeg mewn swyddi	Yn parhau
Canllawiau i'r staff am gyfrifoldebau o dan Cynllun/Deddf	Yn parhau
Ymgorffori cydymffurfio â'r Cynllun mewn trefniadau ag eraill	Yn parhau
Sefydlu system arolygu	Wrth gymeradwyo'r cynllun
Ymateb y cyhoedd drwy'r Datganiad Siarter Safonau	Wrth gymeradwyo'r cynllun
Cyhoeddi Gwybodaeth	Wrth gymeradwyo'r cynllun
Darparu'r Cynllun i'r holl staff	Ar ôl cymeradwyo'r cynllun

## Atodiad B

### GWEITHREDU CYNLLUN IAITH GYMRAEG AOCC

#### 1. Targedau ac Arolygu

1.1 Dylai AOCC bennu targedau iddi ei hun er mwyn gallu bodloni holl anghenion y polisi yn llawn cyn pen tair blynedd.

**Mewn llawer maes gweithgarwch, mae AOCC eisoes yn gweithredu gwasanaeth dwyieithog llawn, ond mewn rhai enghreifftiau, e.e lle mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg, teimlir bod hyn yn darged realistig i anelu ato.**

1.2 Sefydli'r Grŵp Llywio ar gyfer AOCC er mwyn sicrhau cydymffurfedd â gofynion y Cynllun Cymraeg, o dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Gwasanaethau Cyhoeddus) a bydd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Adrannau.

**Y Grŵp Llywio fydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiadau Blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg am gynnydd y Cynllun, ac am baratoi arolwg llawn ar ôl tair blynedd.**

1.3 Dylai'r targedau a'r ffordd yr arolygir y Cynllun, gadw at y safonau a restrir yn Siarter y Dinesydd a Datganiad Siarter Safonau AOCC. Ceir yn barod, er enghraifft, gofynion yn ymwneud â'r amser a gymerir i ateb llythyron.

**Bydd y Grŵp Llywio newydd yn addasu targedau Datganiad Siarter er mwyn cynnwys gofynion ddwyieithrwydd y Cynllun.**

## **2. Arddangosfeydd**

2.1 Dylai pob testun uniaith mewn arddangosfeydd sydd eisoes yn bodoli gael eu hadnewyddu cyn pen tair blynedd, oni fwriedir eisoes i'w hadnewyddu'n gynnar.

2.2 Dylai pob arwydd uniaith sydd i fod i gael ei adnewyddu cyn pen tair blynedd, oni fwriedir eisoes i'w hadnewyddu'n gynnar.

**Cafodd arolwg o'r arwyddion Corfforaethol ei gwblhau ym mis Hydref 1996.**

## **3. Safleoedd ac Adrannau**

3.1 Ym mhob safle nad yw eisoes yn gweithio'n ddwyieithog gan mwyaf dylid cael o leiaf un person all ddelio ag ymholiadau cyffredinol drwy gyfrwng y Gymraeg, neu sicrhau eu bod yn gallu darparu'r gwasanaeth drwy drosglwyddo galwadau neu ofyn am gymorth aelodau staff mewn adrannau eraill sy'n siarad Cymraeg, gan achosi cyn lleied o anghyfleuster i'r ymholwr ag y bo modd.

3.2 Caiff staff dwyieithog eu penodi i'r adrannau a'r disgyblaethau hynny lle mae gwybodaeth o'r Gymraeg yn anghenraid curadol sylfaenol, er enghraifft y rhai sy'n delio â'r casgliadau a gwaith AWC Sain Ffagan.

3.3 Dylai Adrannau eraill ymdrechu i benodi staff sy'n siarad Cymraeg ar bob lefel po modd a hyfforddi'r staff presennol er mwyn gwella eu gallu i ddarparu gwasanaeth Cymraeg a thrwy hynny osgoi'r angen am gymorth gan adrannau eraill.

3.4 Dylai pwyllgorau ymgynghorol adrannol gynnwys aelodau sy'n siarad Cymraeg os bydd unigolion addas ar gael.

**3.5 Penaethiaid Adrannau fydd yn gyfrifol am sicrhau bod eu hadrannau'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun yn eu holl weithgareddau a'u gwasanaeth i'r cyhoedd.**

## **4. Hyfforddiant**

4.1 Bydd AOCC yn trefnu hyfforddiant I'r staff hynny mewn swyddi lle bo gwybodaeth o'r Gymraeg yn hanfodol (fel cysylltwyr ffôn a chroesawyr), ac yn gwneud y gallu i siarad y ddwy iaith yn anghenraid i lenwi swyddi gwag o'r fath.

4.2 Bydd AOCC yn cynnig amser rhydd addas i hyfforddi'r staff hynny y nodir bod gwybodaeth o'r Gymraeg dymunol iddynt, a bydd yn ceisio help pawb sydd â diddordeb mewn dysgu i siarad Gymraeg.

**Dechreuodd dosbarthiadau mewnol cyflwyno'r Gymraeg ym mis Medi 1996 i rai sy'n dechrau dysgu; mae dosbarthiadau uwch i siaradwyr Cymraeg sydd am wella'u medrau'n cael eu hasesu.**

## 5. Cyfieithu

5.1 Dylai AOCC ymchwilio i effeithlonrwydd penodi cyfieithydd â chymwysterau priodol o ran cost fel aelod amser-llawn neu ran-amser o'r staff, yn lle contractio gwaith o'r fath allan, ac arolygu'r anghenion yn rheolaidd.

### **Y Rheolwr Dylunio a Chyhoeddiadau i gwblhau arolwg erbyn mis Gorffennaf 1997.**

## 6. Ariannu

6.1 Dylai AOCC gydnabod y bydd gweithredu'r polisi hwn yn galw am arian ychwanegol a dylai ddarparu'r arian hwnnw. Mae cyhoeddiad dwyieithog er enghraifft fel arfer yn ddrutach na fersiwn uniaith a gallai hyn effeithio ar gyllideb rhai adrannau.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae wyneb cyhoeddus AOCC eisoes yn ddwyieithog, ond dylai pob un sy'n gofalu am gyllideb sicrhau bod arian yn cael ei neilltuo ar gyfer cyfieithu a chostau cysylltiedig fel costau argraffu uwch, wrth drefnu eu cyllidebau.